www.xtrapapers.com

M12/1/A1WEL/SP2/WEL/TZ0/XX

22120340

International Baccalaureate®
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Tuesday 15 May 2012 (morning)
Mardi 15 mai 2012 (matin)
Martes 15 de mayo de 2012 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied. You may include in your answer a discussion of a Part 2 work of the same genre if relevant. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works will not score high marks.
- You are not permitted to bring copies of the works you have studied into the examination room.
- The maximum mark for this examination paper is *[25 marks]*.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Traitez un seul sujet de composition. Vous devez baser votre réponse sur au moins deux des œuvres de la 3e partie que vous avez étudiées. Le cas échéant, vous pouvez inclure dans votre réponse une discussion sur une œuvre du même genre littéraire étudiée dans la 2e partie du programme. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la 3e partie n'obtiendront pas une note élevée.
- Vous n'êtes pas autorisé(e) à amener des exemplaires des œuvres que vous avez étudiées dans la salle d'examen.
- Le nombre maximum de points pour cette épreuve d'examen est *[25 points]*.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Elija un tema de redacción. Su respuesta deberá basarse en al menos dos de las obras estudiadas en la Parte 3. Se podrán hacer comentarios sobre una obra de la Parte 2 del mismo género, si fuera necesario. Las respuestas que no incluyan una discusión sobre al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán notas altas.
- No se permite traer a la sala de examen copias de las obras estudiadas.
- La puntuación máxima para esta prueba de examen es *[25 puntos]*.


© International Baccalaureate Organization 2012

www.xtrapapers.com



*Ysgrifennwch draethawd ar* ***un*** *o'r cwestiynau hyn. Rhaid ichi seilio eich ateb ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3 a astudiwyd gennych. Yn eich ateb cewch gynnwys trafodaeth ar waith rhan 2 o'r un genre, os yw'n berthnasol.* ***Ni*** *roddir marciau uchel am atebion nad ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** "Mae barddoniaeth yn fodd i arsylwi ar y byd, a sylwi ar bethau ac i'w gweld mewn ffordd wahanol." Cymharwch weithiau o leiaf ddau fardd gwahanol a thrafodwch y ffyrdd y gwnânt i ni sylwi a gweld pethau'n wahanol ac effaith hynny arnom.

**2.** "Gwna barddoniaeth Gymraeg ddefnydd helaeth o gynghanedd, o odli mewnol ac o ail-adrodd patrymau sain." Gan gyfeirio at o leiaf ddau fardd, cymharwch sut ac i ba effaith y defnyddiant gynghanedd, odlau mewnol a phatrymau sain.

**Drama**

**3.** "Mae comedi yn datguddio gwendid dynol; ond mae trasiedi yn dadlennu cryfder dynol." Sut ac ym mha ffyrdd y mae gwendidau a chryfderau dynol yn cael eu cyfleu yn o leiaf ddwy ddrama a ddarllenwyd gennych?

**4.** Gan gyfeirio at ddwy neu dair drama a astudiwyd gennych, trafodwch natur ac arwyddocâd dramatig methiant rhai cymeriadau i gyfathrebu â'i gilydd.

**Nofel**

**5.** "Mae mwy i nofel na stori." Yn ogystal â stori dda, pa elfennau eraill sy'n angenrheidiol mewn nofel lwyddiannus? I ba raddau y ceir hwy yn y nofelau a astudiwyd gennych? Dylid cyfeirio at ddau neu dri gwaith gan wahanol awduron.

**6.** Y mae llawer o awduron yn ymdrin â phroblemau annhegwch mewn teulu a chymdeithas. Sut, ac i ba raddau, yr ymdrinnir â'r pwnc hwn gan y nofelwyr y darllenoch eu gwaith? Dylid cyfeirio at o leiaf ddwy nofel.

www.xtrapapers.com



**Storïau Byrion**

**7.** Gan gyfeirio at ddwy stori gan ddau awdur gwahanol, cymharwch y technegau a ddefnyddir i bortreadu cymeriadau gwrthgyferbyniol, gan nodi'r rhesymau am eich dewis.

**8.** "Yn wahanol i nofelau, y mae cyflymder yn chwarae rhan fwy pwysig yn y stori fer." Gan gyfeirio at o leiaf ddwy stori fer gan wahanol awduron, cymharwch y technegau a ddefnyddir i gynnal y cyflymder yn eu gweithiau ac i ba effaith.

**Hunangofiant a Chofiant**

**9.** Cymharwch bwysigrwydd a swyddogaeth safbwynt personol yr awdur neu'r cofiannydd yn o leiaf ddau neu dri gwaith a ddarllenoch a sut y cyflëir y farn honno.

**10.** Sut, ac i ba raddau, y dylanwadodd y teulu ar wrthrych dau waith a ddarllenwyd gennych? Dylid rhoddi sylw hefyd i sut y cyflwynir y dylanwad hwnnw yn y gweithiau.

**Cwestiynau Cyffredinol**

**11.** Gan gyfeirio at o leiaf ddau waith gan ddau awdur gwahanol, cymharwch sut y gwnaethant ymgorffori lle neu dirwedd yn eu gweithiau ac i ba effaith.

**12.** "Ceisia rhai ysgrifenwyr bortreadu realiti; cyflwyna eraill bosibiliadau amgen." I ba raddau a sut y mae o leiaf ddau waith gan wahanol awduron yn portreadu realiti neu bosibiliadau eraill?

**13.** "Does dim gwerth i lenyddiaeth." Gan gyfeirio at o leiaf ddau waith y gwnaethoch eu darllen, trafodwch gan roi rhesymau i ba raddau yr ydych yn cydweld neu'n anghydweld â'r gosodiad hwn.

**14.** Y mae llawer o lenorion a beirdd yn rhoddi sylw mawr i hiraeth yn eu gweithiau. Sut, ac i ba effaith, y mae dau neu dri awdur a astudiwyd gennych wedi gwneud defnydd o hiraeth yn eu gweithiau?

---